CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	**Glanhawr Symudol**
Rhif y Swydd:	**MCC3348**
Cod Gwerthuso Swyddi:	**LES033**
Gwasanaeth:	**Arlwyo a Glanhau**
Lleoliad/Canolfan Waith:	**Gogledd Powys**

(mae hon yn swydd gweithio ar hyd y lle, sy'n golygu er bydd angen i'r sawl sydd yn y swydd weithio o leoliad penodol, byddan nhw'n gweithio ar draws y sir o wahanol leoliadau y mwyafrif o'r amser)

Graddfa:	**Graddfa 2** **Pwynt 1 i Bwynt 2** **£24,413 y flwyddyn ar gyfartaledd** **£12.65 yr awr**

Ar hyn o bryd mae gan Gyngor Sir Powys dâl atodol Cyflog Byw Gwirioneddol yn ôl disgresiwn i weithwyr sy'n ennill llai na £13.45 yr awr

Oriau'r contract:	**15 awr, Parhaol**
Atebol i:	**Glanhawr gyda Chyfrifoldeb**
Cyfrifoldeb dros:	**Neb**

Crynodeb

Ynghylch y rôl:
Byddwch yn gyfrifol am lanhau amrywiol adeiladau Powys yn gyffredinol, gan gynnwys hwfro, mopio, glanhau dodrefn ac arwynebau gwaith.

Amdanoch chi:
Chwaraewr tîm da
Bydd angen i chi fod yn hyblyg yn eich ymagwedd at waith
Y gallu i weithio ar eich pen eich hun pan fo angen Sgiliau cyfathrebu rhagorol

Beth fyddwch yn ei wneud:
Glanhau ysgolion ac adeiladau
Sicrhau bod y sefydliad yn ddiogel

Am ragor o wybodaeth am y swydd hon, gallwch gysylltu â
Fiona Preece
01597826531
07786276713

Bydd eich cyfrifoldebau'n cynnwys:

1. Darparu gwasanaeth llinell flaen yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Sir Powys
2. Gellir bod yn gyfrifol am ddiogelwch y sefydliad wrth lanhau. Cyfrifol am lanhau ardal benodol i'r gofynion a nodwyd trwy ddefnyddio'r llafur sydd ar gael yn effeithiol.
3. Glanhau lloriau trwy hwfro, polisho â pheiriant, sgrwbio â pheiriant, ysgubo/mopio gwlyb/sych
   Glanhau dodrefn, peiriannau, sinciau ac arwynebedd gwaith, sgyrtins, silffoedd a siliau
4. Glanhau tai bach, toiledau, wrinalau, basnau ymolchi, drychau ac offer dal papur tŷ bach, tywelion papur a sebon fel sydd angen
5. Glanhau marciau budr oddi ar waliau, drysau a ffenestri mewnol at uchder pen Symud gwe pry cop a llwch hyd at 2.2m
6. Gwagu biniau ailgylchu/gwastraff (gan ddilyn trefniadau ailgylchu lleol) glanhau'r biniau a gosod sachau newydd
   Mynd ag unrhyw beth i'w ailgylchu / gwastraff i'r man cadw gwastraff a'i storio'n gywir i aros i gael ei gasglu Llenwi unrhyw ffurflenni fel sydd angen
   Glanhau adeg gwyliau (os caiff hynny ei wneud yn y sefydliad) gan gynnwys: waliau, lloriau, ffenestri a drysau mewnol, dodrefn, ffitiadau, silffoedd ffenestri ac arwynebeddau gwaith.
7. Sicrhau safon gwaith da trwy:
   - ddweud am eitemau wedi'u difrodi/torri wrth Bennaeth y sefydliad a'r Rheolwr
     Llinell
   - dweud am ddraeniau wedi blocio wrth Bennaeth y sefydliad a'r Rheolwr Llinell
   - dweud am ddifrod i ffenestri Bennaeth y sefydliad a'r Rheolwr Llinell
   - cadw at reolau iechyd a diogelwch
   - dilyn trefn defnyddio cemegau'n gywir
   - sicrhau amgylchedd gwaith diogel

Gofynion Gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

Mae angen Gwiriad Manylach y DBS i'r swydd hon. Mae'r swydd hon yn cael ei chyfri'n weithgaredd a reoleiddir dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, a bydd yn destun gwirio rhestr o'r bobl hynny sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant.

Gofynion Iechyd a Diogelwch

Cydweithio gyda'r cyflogwr a dilyn cyngor a chyfarwyddyd iechyd a diogelwch.

Datganiad Cydraddoldebau:

Dilyn egwyddorion ac arferion cyfle cyfartal fel y nodir ym Mholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor.

Gofynion y Gymraeg

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol.

SYLWCH;

Er y manylion sydd yn y swydd ddisgrifiad, bydd gofyn i'r sawl sydd yn y swydd wneud unrhyw waith ar gais y Rheolwr o dro i dro, hyd at neu ar lefel sy'n cyfateb â 'Phrif Gyfrifoldebau'r Swydd.'

Y PERSON

Ydych chi'n meddwl mai chi yw'r person cywir i'r rôl? Os felly, dangoswch eich bod chi'n bodloni'r meini prawf canlyniol yn eich cais.

Profiad

Dymunol

- Profiad o lanhau
- Profiad o ddilyn amserlenni Gwaith

Gwybodaeth **Hanfodol**

- Dealltwriaeth o halogiad
- Iechyd a Diogelwch

Dymunol

- Dealltwriaeth o gemegau - sut i'w defnyddio a'u storio

Cofrestriadau, Cymwysterau a Hyfforddiant

Hanfodol

- Gallu i gyflawni hyfforddiant mewnol ar beiriannau a chemegau

Rhinweddau Personal

Hanfodol

- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol da
- Gallu i gadw amser yn dda

Sgiliau

Hanfodol

- Gallu i wneud yr holl waith papur angenrheidiol
- Gallu i gymryd yr hyfforddiant angenrheidiol, gweithio ar eich pen eich hun neu fel rhan o dîm
- Sgiliau llafar ac ysgrifenedig da

Gofynion Eraill **Hanfodol**

- Gallu i gloi'r sefydliad fel sydd angen
- Mae angen Gwiriad Manylach y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer y swydd hon.
- Hyblygrwydd o ran amseroedd gwaith

Rheolwr recriwtio: Cheryl Leighton
26/10/2011

Ein gwerthoedd:

Proffesiynol
Rydym yn ymddwyn gyda phroffesiynoldeb ac integriti ym mha bynnag rôl yr ydym yn ei chwarae yn y cyngor

Cadarnhaol
Mae ein hagwedd yn gadarnhaol ym mhopeth a wnawn

Blaengar
Mae ein hymagwedd yn rhagweithiol a chyfrifol wrth gynllunio am y dyfodol

Agored
Rydym yn hysbysu'n gilydd gan rannu gwybodaeth ac ymddwyn â gonestrwydd ac integriti

Cydweithiol
Rydym ni'n gweithio'n adeiladol ac â pharodrwydd ar fentrau ar y cyd

Sut i ymgeisio

Bydd angen i chi gwblhau'r cais ar-lein, mae'n syml, dilynwch y broses gam wrth gam.

Gair i gall:

- Darllenwch y Swydd Ddisgrifiad a Manyleb y Person yn ofalus a'r dystiolaeth eich bod chi'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol yn eich datganiad cefnogi.
- Gwerthwch eich hun a rhowch enghreifftiau ble y bo'n bosibl
- Rhestrwch y cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol i'r swydd, yn ôl y manylion ym manyleb y person.
- Sicrhewch fod un o'ch canolwyr o'ch cyflogwr mwyaf diweddar neu os mai hon yw eich swydd gyntaf beth am ofyn i athro ysgol neu diwtor, ond sicrhewch eich bod yn adnabod y canolwr ar lefel broffesiynol.
- Byddwch yn onest a dywedwch wrthym am unrhyw fylchau yn hanes eich cyflogaeth
- Cwblhewch y cais yn gyflawn

Camau nesaf

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 13/12/2026.
Ar ôl cyflwyno byddwn yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi ein bod ni wedi derbyn eich cais.
Byddwn yn creu rhestr fer o'r ceisiadau ar 18/12/2026. Byddwn yn anfon e-bost atoch os ydych chi'n llwyddiannus ai peidio. Felly, cadwch lygad ar eich mewnflwch!

Bydd y cyfweliadau'n digwydd ar 24/12/2026.

Dymunwn bob hwyl i chi gyda'ch cais.